Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022**
DYDDIAD	**24.10.2022**
GAN	**Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

Gosodwyd Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022 ("Rheoliadau 2022") ar ffurf drafft gerbron y Senedd ar 20 Hydref 2022, yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol, a gellir eu gweld yma:

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2022/9780348240047/contents.

Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

- Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 22 Medi 2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

- Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 22 Medi 2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maetheg anifeiliaid.

- Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 29 Ebrill 2004 yn nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n deillio o anifeiliaid

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 378/2005 dyddiedig 4 Mawrth 2005 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd mewn perthynas â dyletswyddau a thasgau'r Labordy Cyfeirio Cymunedol ynghylch ceisiadau am awdurdodiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid.

- Penderfyniad y Comisiwn 2007/305/EC dyddiedig 25 Ebrill 2007 ar dynnu rêp had olew hybrid Ms1xRf1 (ACS-BNØØ4-7xACS-BNØØ1-4) a'r cynhyrchion sy'n deillio ohono o'r farchnad (a nodwyd o dan ddogfen C(2007) 1805).

- Penderfyniad y Comisiwn 2007/306/EC dyddiedig 25 Ebrill 2007 ar dynnu rêp had olew hybrid Ms1xRf2 (ACS-BNØØ4-7xACS-BNØØ2-5) a'r cynhyrchion sy'n deillio ohono o'r farchnad (a nodwyd o dan ddogfen C(2007) 1806).

- Penderfyniad y Comisiwn 2007/307/EC dyddiedig 25 Ebrill 2007 ar dynnu rêp had olew Topas 19/2 (ACS-BNØØ7-1) a'r cynhyrchion sy'n deillio ohono o'r farchnad (a nodwyd o dan ddogfen C(2007) 1809).

- Rheoliad (EC) Rhif 429/2008 dyddiedig 25 Ebrill 2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno ceisiadau, ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid.

- Rheoliad (EC) Rhif 1331/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 16 Rhagfyr 2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd.

- Rheoliad (EC) Rhif 152/2009 dyddiedig 27 Ionawr 2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid.

- Rheoliad (EC) Rhif 450/2009 dyddiedig 29 Mai 2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

- Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 13 Gorffennaf 2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio, sy'n diwygio Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd (EC) Rhif 1831/2003, ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/511/EEC, Cyfarwyddebau'r Cyngor 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC a 96/25/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/217/EC.

- Rheoliad (EU) Rhif 619/2011 dyddiedig 24 Mehefin 2011 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid mewn perthynas â phresenoldeb deunydd wedi'i addasu'n enetig y mae gweithdrefn awdurdodi ar ei chyfer ar y gweill neu y mae awdurdodiad ar ei chyfer wedi dod i ben.

- Rheoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 25 Tachwedd 2015 ar fwydydd newydd, sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 258/97 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1169/2011.

Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn diwygio cyfraith ddomestig benodol sy'n deillio o'r UE sy'n gymwys i Loegr yn unig.

Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2022 yn trosglwyddo swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru. Hepgorwyd y swyddogaethau yn Erthyglau 8(6) a 20(6) o Reoliad 1829/2003 (swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd yn flaenorol) mewn camgymeriad gan OS blaenorol yng nghyswllt Ymadael â'r UE. Bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu hadfer a'u hail-lunio fel swyddogaethau'r 'awdurdod priodol'. Yr awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru yw Gweinidogion Cymru.

Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn gwneud cywiriadau i ddarpariaethau deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig y trosglwyddwyd swyddogaethau mewn perthynas â hwy, i Weinidogion Cymru o dan Offerynnau Statudol blaenorol Ymadael â'r UE, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru.

Nid yw Rheoliadau 2022 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae Rheoliadau 2022 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ym meysydd hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn cywiro diffygion cyfreithiol a sicrhau gweithredu parhaus y ddeddfwriaeth honno ar ôl y Cyfnod Gweithredu.

Diben y diwygiadau

Diben Rheoliadau 2022 yw:

- Mynd i'r afael ag amrywiaeth o ddiffygion sy'n weddill yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir ym maes diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau gweithredu parhaus y ddeddfwriaeth honno ar ôl y Cyfnod Gweithredu.

- Cywiro diffygion sy'n weddill o ganlyniad i wallau mewn diwygiadau blaenorol a wnaed yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

- Diwygio Rheoliad (EC) 1829/2003 a ddargedwir ar organeddau a addaswyd yn enetig i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid, i adfer ac ail-lunio Erthyglau 8(6) a 20(6) er mwyn darparu'r ddarpariaeth am bennu cyfnodau cyfyngedig o amser ar gyfer disbyddu'r stociau cyfredol o cynhyrchion i'w defnyddio, a hynny er mwyn helpu i dynnu GMOs o'r farchnad y mae'r awdurdodiad ar ei chyfer wedi dod i ben.

- Diwygio Penderfyniadau 2007/305/EC, 2007/306/EC a 2007/307/EC i estyn cyfnod goddefiant tair GMO a dynnwyd yn ôl am dair blynedd arall tan 31 Rhagfyr 2025 er mwyn caniatáu i elfennau hybrin o'r GMOs a dynnwyd yn ôl fod yn bresennol mewn cynhyrchion hyd at oddefiant o 0.1%, a gwneud mân ddiwygiad canlyniadol i Reoliad 619/2011 a ddargedwir i adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfnodau goddefiant ar gyfer y GMOs hyn a dynnwyd yn ôl.

- Diwygio Rheoliad (EU) 2015/2283 a ddargedwir ar fwydydd newydd, er mwyn darparu cyfnod trosiannol â therfyn amser ar gyfer pryfed bwytadwy, sy'n benodol i Brydain Fawr. Bydd hyn yn caniatáu i bryfed bwytadwy cymwys aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr tan 31 Rhagfyr 2023 er mwyn caniatáu i geisiadau am awdurdodiadau

bwydydd newydd gael eu cyflwyno, ac o ganlyniad, i ganiatáu amser i'r awdurdod priodol benderfynu arnynt.

- Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau gweithredol a deallus ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, er mwyn dileu'r gofyniad i ddefnyddio'r pictograff 'Do Not Eat' ar gynhyrchion o'r fath o ystyried bod yr UE, neu endid tebyg, yn dal hawliau eiddo deallusol y pictograff. Bydd y gofyniad i gymhwyso'r geiriau 'DO NOT EAT' ar ddeunyddiau gweithredol a deallus sy'n dod i gysylltiad â bwyd yn parhau i fod yn orfodol.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith pob diwygiad, yma:

https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2022/9780348240047/memorandum/contents

Pam rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniant y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y diffygion cyfreithiol a nodwyd yn cael eu cywiro, a bod y darpariaethau'n gweithredu fel y bwriadwyd, a hynny wrth sicrhau bod mesurau trosiannol ar gyfer cynhyrchion organeddau a addaswyd yn enetig yn cael eu gweithredu'n barhaus, a bod cynawsedd â Gogledd Iwerddon yn y cyswllt hwn o ran rheoleiddio.